## Testun Gwybodaeth

## Hanes Cwm Tryweryn

Yn 1965 gwnaeth pobl ardal Capel Celyn, ger y Bala, adael eu cartrefi am y tro olaf. Roedd pentref Capel Celyn mewn cwm o 800 erw o dir ffrwythlon, ac roedd Cyngor Dinas Lerpwl eisiau boddi'r cwm er mwyn creu cronfa ddŵr ar gyfer dinas Lerpwl.

Roedd llawer iawn o bobl yn teimlo'n gryf am hyn. Teimlai pobl Lerpwl fod rhaid iddyn nhw gael dŵr i'w yfed, gan fod y ddinas yn tyfu ac yn datblygu yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Doedd pobl Capel Celyn ddim eisiau gadael eu cartrefi a cholli eu ffordd draddodiadol o fyw.

Aeth bobl Capel Celyn i Lerpwl i brotestio am hyn, ond wedi llawer iawn o ddadlau, roedd llywodraeth Prydain wedi penderfynu cefnogi cyngor Lerpwl. Teimlai rhai pobl yn flin iawn. Cafodd un person ifanc, o'r enw Emyr Llywelyn ei anfon i'r carchar. Gorfodwyd iddynt adael eu cartrefi, eu hysgol, eu capel, mynwent a swyddfa'r post. Cafodd 12 fferm ei boddi. Boddwyd y cwm yn gyfan gwbl. Cost y prosiect oedd £20, 000 000.

Yn 2005, 40 mlynedd ar ôl creu cronfa ddŵr Tryweryn, gwnaeth cyngor dinas Lerpwl ymddiheuro am yr hyn wnaethon nhw. Erbyn heddiw mae llawer o gronfeydd dŵr ar hyd a lled Cymru, ond mae hanes boddi cwm Tryweryn yn dal yn fyw i'r Cymry.